

**DYDD IAU, 4 MAWRTH 2021**

**AT: HOLL AELODAU'R CYNGOR SIR**

**YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD  
RHITHWIR O'R CYNGOR SIR A GYNHELIR AM 10.00 YB, DYDD  
MERCHER, 10FED MAWRTH, 2021 ER MWYN CYFLAWNI'R  
MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM**

*Wendy Walters*

**PRIF WEITHREDWR**

<b>Swyddog Democraidd:</b>	<b>Martin S. Davies</b>
<b>Ffôn (Ilinell uniongyrchol):</b>	<b>01267 224059</b>
<b>E-bost:</b>	<b>MSDavies@sirgar.gov.uk</b>

Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive*,  
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP  
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

# AGENDA

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.
3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.
4. AILBENODI AELOD CYFETHOLEDIG I'R PWYLLGOR SAFONAU. 5 - 6
5. PENNU TRETH Y CYNGOR AM FLWYDDYN ARIANNOL 2021/22. 7 - 22
6. DATGANIAD POLISI TALIADAU 2021/22. 23 - 260
7. YSTYRIED ARGYMHELLION Y BWRDD GWEITHREDOL O RAN Y MATERION CANLYNOL:
  - 7.1 ADOLYGIAD O DDATGANIAD Y POLISI TRWYDDEDU (DEDDF TRWYDDEDU 2003). 261 - 382
8. DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWYD AR 22AIN CHWEFROR 2021. 383 - 392
9. YSTYRIED Y RHYBUDDION O GYNNIG CANLYNOL:-
  - 9.1 RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD ROB JAMES

"Ddwy flynedd yn ôl, pasiodd Cyngor Sir Gaerfyrddin gynnig yn datgan argyfwng hinsawdd yn unfrydol a chefnogodd y nod bod yr awdurdod hwn yn dod yn awdurdod carbon sero-net yn y naw mlynedd nesaf. Teimlwn nad yw pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau ein bod fel awdurdod yn cyrraedd y targed hwn ac yn nodi'r pryderon difrifol hyn sy'n cael eu hadleisio gan drigolion Sir Gaerfyrddin.

Mae'r

Cyngor

hwn:

- yn pryderu ynghylch arafwch ein hawdurdod wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd sy'n cael effaith ddinistriol ar gymunedau.
- Yn credu, oni bai bod adnoddau sylweddol yn cael eu neilltuo i fuddsoddi mewn cerbydau trydan neu gerbydau nad ydynt yn defnyddio tanwydd ffosil ar gyfer ein fflyd, gan gynnwys ailgylchu cerbydau, ôl-ffitio ein hadeiladau, cynllun plannu coed ar raddfa fawr ledled Sir Gaerfyrddin, a chynhyrchu ynni yn lleol, na fyddwn yn cyrraedd ein targed. Nid yw prosiect cyfalaf y Cyngor yn mynd yn ddigon pell i ymateb i'r her hon ar hyn o bryd.
- Yn ofni bod parhau i ddatblygu ar gaeau gwyrdd yn niweidio'r amgylchedd ac yn fygythiad mawr i gymunedau o ran llifogydd.
- Yn nodi mai Cyngor Sir Gaerfyrddin, er gwaethaf y galw gan y cyhoedd a phwysau gwleidyddol, yw'r unig awdurdod lleol yng Nghymru o hyd i beidio â chasglu gwydr o dŷ i dŷ i gefnogi ein hymdrechion ailgylchu.
- Yn croesawu'r newyddion bod Cronfa Bensiwn Dyfed wedi cytuno i

symud 24% o'i chyfranddaliadau i gronfeydd "reduced fossil fuel free", ac eto'n credu bod yn rhaid iddi fynd ymhellach cyn gynted â phosibl."

**10. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).**

**11. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU:-**

**11.1 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD EDWARD THOMAS I'R CYNGHORYDD HAZEL EVANS, AELOD Y BWRDD GWEITHREDOL DROS AMGYLCHEDD.**

"Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid o £55m ar gyfer teithio llesol, sydd, yn ôl a ddeallaf, wedi'i gynllunio i annog awdurdodau lleol i fod yn uchelgeisiol ac annog llwybrau beicio a cherdded i'r gwaith.

A ydych yn credu bod cynllun Sir Gaerfyrddin ar gyfer llwybr beicio rhwng Llandeilo a Chaerfyrddin yn uchelgeisiol ac yn arloesol i fod yn gymwys ar gyfer y cyllid hwn neu a fydd Lee Waters, y Dirprwy Weinidog Trafnidiaeth ac AS Lleol, yn creu anhawster arall?"

**12. CYMARADWYO Y NEWIDIADAU CANLYNOL I AELODAETH PWYLLGORAU**

**12.1 BOD Y GRWP LLAFUR WEDI ENWEBU'R CYNGHORYDD DERYK CUNDY I GYMRYD LLE'R CYNGHORYDD PENNY EDWARDS AR Y PWYLLGOR CYNLLUNIO.**

**13. COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)**

**13.1 PWYLLGOR PENODI B - 17EG CHWEFROR 2021.**